# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## Cofnodion EOC(3)-15-08

**Dyddiad: Dydd Iau 20 Tachwedd 2008**
**Amser: 10.30am – 11.30am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Ann Jones, Dyffryn Clwyd (Cadeirydd)

Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru

Irene James, Islwyn

### Swyddogion yn bresennol

Tom Jackson, Clerc
Rita Phillips, Dirprwy Glerc

Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Lorraine Barrett AC, y Comisiynydd ar gyfer Cynulliad Cynaliadwy

Iwan Williams, Rheolwr y Wasg, y We a Chyhoeddiadau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Holly Pembridge, Rheolwr Cydraddoldeb, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Nick Ramsay a Joyce Watson. Roedd Irene James yn dirprwyo ar ran Joyce Watson.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

### Eitem 2: Hygyrchedd gwybodaeth

**Papur: EOC(3)-15-08 (p1)**

### 2.1 Trafododd yr Aelodau'r materion yn deillio o Bapur 1.

### Camau i'w cymryd:

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gofyn iddo fonitro cynnydd gweithredu polisïau hygyrchedd gwybodaeth mewn awdurdodau lleol.

Y Cadeirydd i ysgrifennu i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am gopïau o'r polisïau hygyrchedd gwybodaeth a weithredwyd mewn dau awdurdod lleol ac awgrymu y dylid ehangu'r arfer gorau hwn i weddill awdurdodau lleol Cymru.

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynegi pryder nad yw cardiau apwyntiad meddygon teulu yn aml ar gael ar fformat hygyrch a gofyn a gafwyd gwelliannau ers cwblhau'r arolwg, y gellir ei weld yn Atodiad 2.

### Eitem 3: Crynodeb o Lwyddiannau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn 2008

**Papur: EOC(3)-15-08(p.2)**

3.1 Trafododd yr Aelodau waith y pwyllgor yn ystod 2008.

**Camau i'w cymryd:**

Aelodau'r pwyllgor i ystyried ffyrdd newydd o gasglu syniadau ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol ac o ymwneud â'r cyhoedd.

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn pa gamau sy'n cael eu cymryd yng ngoleuni adroddiadau diweddar fod y bwlch cyflog yn cynyddu yng Nghymru.

Y Cadeirydd i wahodd Plant Anabl yn Cyfri Cymru i gyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod Gwanwyn 2009 er mwyn gofyn a ydynt yn fodlon â setliad y gyllideb.

## Eitem 4: Polisi Gwybodaeth Hygyrch Comisiwn y Cynulliad

**Papur: EOC(3)-15-08(p.3)**

4.1 Rhoddodd Lorraine Barrett AC, Iwan Williams a Holly Pembridge y newyddion diweddaraf i'r pwyllgor am ystyriaethau hygyrchedd yn Strategaeth Ymgysylltu yr adran Cysylltiadau Allanol. Ymatebodd y tri i gwestiynau gan y pwyllgor.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i Lorraine Barrett AC, Iwan Williams a Holly Pembridge am ymddangos gerbron y pwyllgor.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2008**